# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Arthur Jenkins**

**Cartref Preswyl Arthur Jenkins**
**Coed Cae Road Blaenafon**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 9PP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Arthur Jenkins

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 29 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Ionawr 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn canmol y staff a'r gwasanaethau a ddarperir yn Arthur Jenkins, a gaiff ei ystyried fel rhan o'r gymuned leol. Dywedwyd wrthym eu bod yn hapus yn cael gofal gan staff hyfforddedig a phrofiadol. Mae'r rheolwr yn sefydledig iawn gan ei fod wedi gweithio yn y gwasanaeth am flynyddoedd; caiff ei gefnogi gan dîm o staff cymharol sefydlog. Roedd trefniadau rheoli interim wedi'u rhoi ar waith er mwyn cyflenwi absenoldebau staff. Gall y bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd. Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da, gyda gerddi sy'n sbarduno ac yn cynnig lle i ymlacio.

Gwelsom fod angen cryfhau'r broses o oruchwylio'r trefniadau llywodraethu gan na all y bobl fod yn dawel eu meddwl y byddant yn cael gofal a chymorth cyson. Caiff diffygion yn ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir eu nodi gan y sefydliad, ond maent yn parhau er bod systemau wedi'u rhoi ar waith i'w gwella. Nid yw'r staff wedi cael sesiynau goruchwylio ers amser maith, ac mae hyn wedi arwain at arferion meddyginiaeth anniogel. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

## Llesiant

Caiff barn y bobl am y gwasanaeth ei hystyried. Mae grŵp sefydlog o staff sy'n adnabod yr unigolion yn dda ac yn deall eu hoffterau a'u cas bethau. Dywedodd y preswylwyr wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y gwasanaeth gyda staff sy'n garedig, gofalgar ac ymatebol. Gwelsom achosion o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r preswylwyr drwy gydol ein hymweliad. Dywedodd un unigolyn, *"they do everything for us that is needed I reckon I am in the best home around."* Dywedodd unigolyn arall y byddai'n well ganddo fod gartref ond *"it's good in here, its lovely*."

Nid yw ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn Arthur Jenkins yn gyson. Nid yw cynlluniau personol y bobl yn adlewyrchu eu hanghenion gofal a chymorth bob amser. Mae'r bobl wedi'u cofrestru â meddyg teulu lleol ac mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymweld â'r gwasanaeth fel y bo angen. Caiff y weithred o fonitro gofal iechyd unigol ei gwblhau, ond gall y cofnodion fod yn anghyson. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi'r bwyd a'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio'r bwydlenni sy'n darparu ar gyfer llysieuwyr. Er mwyn cynnal diogelwch y bobl, mae angen staff gofal i oruchwylio unigolion sy'n defnyddio'r lolfeydd cymunedol. Nid yw'r systemau llywodraethu a roddwyd ar waith er mwyn mynd i'r afael â diffygion o ran gofal a chymorth yn effeithiol.

Gall y bobl dreulio amser ar eu pen eu hunain neu gydag eraill. Caiff ystafelloedd y preswylwyr eu cadw'n lân a thaclus ac maent wedi'u haddurno â ffotograffau teulu ac eitemau bach i gofio. Dywedwyd wrthym y caiff ystafelloedd eu haddurno cyn i unigolion symud i mewn i'r gwasanaeth, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o hyn. Mae mwy o weithgareddau bellach yn cael eu cynnig, ac yn ystod yr ymweliad, gwelsom nifer o sesiynau yn cael eu cynnal. Dywedodd perthynas wrthym,, *"X is very happy with the service. It is homely and staff nice and chatty."* Dywedodd perthynas arall, *"We have had some up and downs, staff are very supportive…they are great, can have a laugh, been great with Y."*

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed, ond mae angen i'r systemau fod yn fwy cadarn er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel bob amser. Mae'r staff gofal yn adnabod yr arwyddion ac yn gwybod sut i fynegi pryderon os byddant yn amau bod llesiant rhywun mewn perygl. Maent wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith i'w harwain. Mae protocolau sefydledig yn golygu nad yw rhyddid y bobl yn cael ei gyfyngu'n ddiangen. Gwelsom fod angen atgyfnerthu cynlluniau risg unigol er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Mae angen rhoi sylw i'r arferion meddyginiaeth er mwyn dileu arferion anniogel.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant y bobl gan ei fod yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Mae wedi'i rannu'n ddwy uned, sef Coity a Blorenege, ar gyfer y bobl sydd â dementia neu heb dementia, ac mae cynllun y gwasanaeth yn cefnogi annibyniaeth y bobl gan ei fod yn cynnwys arwyddion ac addurniadau er mwyn helpu'r bobl i wybod lle maent. Mae gardd

ar wahân ar gyfer pob un o'r unedau i'r preswylwyr eistedd a mwynhau er mwyn hyrwyddo ysgogiad synhwyraidd a'u helpu i ymlacio.

## Gofal a Chymorth

Nid yw cynlluniau personol y bobl yn nodi'r ffordd orau o roi cymorth iddynt. Gwelsom fod gwybodaeth annibynadwy a chyferbyniol yn y cynlluniau a allai arwain at ddarparu gofal gwael ac anghyson i unigolion. Caiff cynlluniau personol y bobl eu hadolygu'n rheolaidd, ond maent yn gryno ac yn cael eu cwblhau heb unrhyw ystyriaeth i newidiadau o ran yr anghenion i'w diwallu neu ganlyniadau i'w cyflawni. At hynny, prin yw'r dystiolaeth bod y staff yn ymgynghori â'r unigolion dan sylw. Gwnaethom nodi gofal a chymorth fel maes i'w wella.

Mae'r broses o fonitro gofal iechyd unigolion yn cael ei chwblhau, er y gwelsom fod siartiau gwahanol yn cael eu defnyddio ac nad oedd cofnodion bob amser yn gyflawn. Gwelsom dystiolaeth fod hoffterau a chas bethau'r bobl wedi'u cynnwys yn y cynlluniau, ond dengys y cofnodion dyddiol nad yw'r gofal yn cael ei ddarparu'n gyson yn unol â'r cynlluniau personol a dewisiadau personol y bobl. At hynny, mae diffyg cyfeiriad i'r staff ar gyfer pryd i gyfeirio unigolion at weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Ers ein hymweliad diwethaf â'r gwasanaeth, mae gweithiwr gweithgareddau wedi'i benodi i weithio yn Arthur Jenkins. Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnig i ysgogi'r bobl, gan gynnwys diwrnodau allan i atyniadau lleol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi mwynhau ymweliad diweddar â'r gwasanaeth gan gôr meibion. Mae plant o'r feithrinfa leol a'r ysgol gerllaw wedi dechrau ymweld â'r gwasanaeth. Nodwyd gennym fod y cofnod a wneir o'r gweithgareddau y mae unigolion yn cymryd rhan ynddynt yn anghyson, sy'n golygu na allwn benderfynu a yw canlyniadau'r bobl yn cael eu cyflawni.

Mae angen rhoi mesurau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu cynnal. Yn ystod ein hymweliad â'r gwasanaeth, gwelsom fod drysau'r lolfeydd ym mhob uned ar agor, sy'n galluogi'r bobl i gymysgu'n rhwydd. Mae cynlluniau rheoli risg unigol ar waith er mwyn diogelu unigolion pan fo angen. Nododd ymweliad comisiynwyr yr awdurdod lleol ym mis Mawrth 2023 bod angen i'r staff oruchwylio'r ardal hon yn barhaus o gofio am y risgiau i unigolion. Rhoddwyd gwybod i ni fod yr ystafell yn cael ei defnyddio'n ddyddiol gyda'r staff yn ei goruchwylio heb gynllunio hynny. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd y byddai amserlen yn cael ei chyflwyno er mwyn diogelu'r bobl sy'n defnyddio'r ardal hon.

Mae angen cryfhau'r arferion meddyginiaeth er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y bobl. Mae uwch-aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth i'r bobl, ond nodwyd bod angen iddynt gael hyfforddiant gloywi ar y maes hwn. Caiff archwiliadau mewnol o feddyginiaethau eu cynnal yn fisol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Gwelsom yr archwiliad diwethaf ac nid oedd yn dangos bod unrhyw broblemau. Roedd y ffurflen a gyflwynwyd er mwyn nodi bylchau yn siartiau meddyginiaeth y bobl yn dangos nad oedd y staff yn ei

llofnodi i ddangos eu bod wedi rhoi meddyginiaeth i unigolion yn rheolaidd. Roedd hyn yn cynnwys meddyginiaethau lleddfu poen, megis morffin a meddyginiaeth ar gyfer pwysedd gwaed. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i'r unigolion yr effeithiodd hyn arnynt, ond cawsom sicrwydd nad oedd unrhyw feddyginiaeth wedi'i methu gan fod gwiriadau o'r stoc yn cael eu cynnal yn ddyddiol. O ganlyniad i ddiffyg gwaith dadansoddi a wnaed am yr unigolion, a phwysigrwydd rhoi meddyginiaeth yn ddiogel, rydym wedi nodi hyn fel maes i'w wella.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cyfforddus, glân a diogel. Mae person cynnal a chadw yn cyflawni'r gwaith atgyweirio ac addurno cyffredinol ac mae'n gyfrifol am gynnal gwiriadau iechyd a diogelwch yn rheolaidd a chynnal a chadw'r cofnodion. Mae darparwr y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r materion sydd heb eu datrys a godwyd yn ystod ymweliad diwethaf Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae cynlluniau personol unigol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEPS) ar waith ar gyfer pob unigolyn mewn argyfwng. Roedd gwiriad iechyd a diogelwch dyddiedig Mawrth 2023 yn nodi bod angen i'r staff gynnal ymarferion tân. Mae asesiad risg tân ar waith.

Mae'r safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar yn addas i ddarparu'r gwasanaeth. Mae cynllun y gwasanaeth yn galluogi unigolion i symud o gwmpas yr unedau unigol yn rhwydd. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn adlewyrchu pwy ydynt. Mae'r ardaloedd sydd angen eu hailaddurno wedi'u nodi fel meysydd y mae angen gweithredu arnynt. Mae mesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol y bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau ar waith sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr yn brofiadol ac wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol. Caiff ei gefnogi gan arweinydd tîm rhan-amser. Ers ein harolygiad diwethaf, mae’r tîm rheoli wedi newid ac mae hyn wedi effeithio ar y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei gefnogi gan reolwr sy'n teithio o le i le.

Mae angen atgyfnerthu’r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth drwy sicrhau ansawdd parhaus. Gwelsom nad yw systemau monitro darpariaeth gofal y bobl yn gadarn, gyda'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth anghyson ac adolygiadau aneffeithiol yn cael eu cynnal. Mae'r sefydliad wedi nodi diffygion, megis gwallau o ran cofnodi meddyginiaeth, er bod y systemau wedi methu â mynd i'r afael â nhw wrth iddynt barhau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi cynnal ymweliadau â'r gwasanaeth yn unol â'r rheoliadau. Nodwyd gennym nad oedd amserlen i gwblhau'r argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth ar waith, sy'n golygu y gallant barhau. Mae adroddiadau ar ansawdd y gofal a gaiff eu llunio bob chwe mis yn ystyried canlyniadau'r bobl fel y nodir mewn arolygon.

Mae'r trefniadau recriwtio ar gyfer staff rheolaidd yn ddibynadwy. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi er mwyn sicrhau bod y staff gofal yn ddiogel ac yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Caiff bylchau mewn gwiriadau cyflogaeth ac adnabod eu hystyried yn ystod y broses gyfweld. Hoffem atgoffa'r darparwr gwasanaeth bod y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i dystysgrif geni gael ei chadw fel prawf hunaniaeth ar gyfer pob unigolyn sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant addas. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant sefydlu cydnabyddedig cyn gweithio gyda'r bobl sy'n agored i niwed. Gwelsom gynllun hyfforddi’r gwasanaeth sy’n monitro hyfforddiant y staff unigol. Rydym yn ymwybodol bod gan y sefydliad brosesau ar waith i sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol i ddiweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae'r tîm o staff wedi cael hyfforddiant gloywi mewn ymwybyddiaeth o Ddementia yn ddiweddar. Mae'r staff wedi'u cofrestru gyda'r rheoleiddiwr gweithlu Gofal Cymdeithasol.

Nid yw'r staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd er mwyn galluogi'r staff gofal i fyfyrio ar eu harfer a sicrhau bod cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal. Nodwyd hyn fel maes i'w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf. Gwelsom fod y cymorth i'r staff yn anghyson ac mae hyn yn effeithio ar y gallu i gyflawni canlyniadau i'r bobl, megis arferion meddyginiaeth. Mae'r broses o oruchwylio'r staff yn parhau i fod yn faes i'w wella.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Ni all y bobl fod yn siŵr y byddant yn cael gofal a chymorth cyson. | Newydd |
| 66 | Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol oruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio mor aml ag sy'n ofynnol bob amser er mwyn bodloni cydymffurfiaeth rheoleiddio. | Heb Gyflawni |
| 21 | Mae'r gweithiwr gweithgareddau a gaiff ei gyflogi yn y gwasanaeth wedi bod yn absennol o'i waith ers sawl mis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd gweithgareddau yn cael eu darparu i grwpiau nac i unigolion. Gwelsom y bobl yn eistedd yn gwylio'r teledu neu'n eistedd ar eu pen eu hunain yn eu hystafelloedd gwely. Roedd y wybodaeth ysgrifenedig am y gweithgareddau yn wag. Nid oedd nodiadau gofal dyddiol y bobl yn nodi fod y bobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau yn rheolaidd er mwyn cynyddu eu hymdeimlad o lesiant. | Cyflawnwyd |
| 59 | Gwelsom ddogfennaeth ysgrifenedig anghyson mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn ddyddiol i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/08/2023